

Rhifyn Ionawr 2017

Mae'r rhifyn hwn o'r Traethodydd yn cynnwys papurau a gyflwynwyd mewn cynhadledd a gynhaliwyd i ddathlu rhifyn ffeminyddol 1986, sef 'Y Gymraes a'i Llên 1986–2016' (30 Ionawr 2016). Nod y gynhadledd oedd asesu'n feirniadol ddylanwad rhifyn 1986 ynghyd â bwrw golwg ar sefyllfa Astudiaethau Menywod yn y Gymru gyfoes. Bu Elin ap Hywel (un o'r golygyddion gwreiddiol Y Traethodydd 1986) a Jane Aaron (un o olygyddion rhifyn ffeminyddol Tu Chwith 1996) yn bwrw golwg yn ôl, a chafwyd cyfraniadau gan Mair Rees, E. Wyn James, Katie Gramich a Rhiannon Marks yn amlygu amlochredd cyfoethog Astudiaethau Menywod cyfoes. Gwahoddwyd Caryl Lewis a Manon Steffan Ros i gloi'r gynhadledd â thrafodaeth ar lenyddda yn yr unfed ganrif ar hugain a'r heriau ymarferol a chreadigol y maent yn eu hwynebu.

Roedd trafodaethau cynhadledd 2016 yn dyst i'r ffaith fod Traethodydd pryfoclyd 1986 wedi ysgogi ymchwilwyr yn y maes a cheir blas ar y gwaith hwnnw yn y rhifyn hwn. Bu Jane Aaron yn un o gyd-olygyddion rhifyn ffeminyddol Tu Chwith 1996, sef rhifyn a oedd yn ymateb yn uniongyrchol i alwadau Y Traethodydd 1986. Mae ei hysgrif yn cyd-destunoli'r rhifyn ffeminyddol 'O'r lard Gefn' yn yr adlach yn erbyn ffeminyddiaeth a ddaeth i'r amlwg yn ystod y 1990au ac yn crynhoi rhai o themâu amlycaf y rhifyn hwnnw. Mae Katie Gramich yn rhannu ei phrofiad fel beirniad a ddylanwadwyd gan ffeminyddiaeth yr ail don ac yn cynnig dehongliad o farddoniaeth ecffrastig gan feirdd benywaidd cyfoes Cymru. Troir at ffuglen gan awduresau Cymraeg yn erthygl Mair Rees ac at gyfraniad menywod i faes 'gwrywaidd', sef hiwmor. Cloir gydag ysgrif gan Rhiannon Marks sy'n ailymweld ag un o ysgrifau Traethodydd 1986, 'Beirniadaeth Lenyddol Ffeminist', gan ystyried oblygiadau trydedd a phedwaredd donnau ffeminyddol rhyngwladol i feirniadaeth Gymraeg.

Golygyddion gwadd y rhifyn hwn yw Dr Cathryn Charnell-White a Dr Siwan Rosser. Ar gael am £4 yn eich siop lyfrau Cymraeg lleol neu trwy archeb (£16 y am bedair rhifyn y flwyddyn) o Wasg Pantycelyn, Lôn Ddewi, Caernarfon, Gwynedd, LL57 1ER.